**Tasg 2**

# Ffeil-o-ffaith Goleudai – o Fôn i Fynwy!

Roedd pobl yn arfer byw mewn goleudai. Mae'n siŵr fod byw yno'n brofiad unigryw.

Darllenwch gân Ceidwad y Goleudy a Dyddiadur Tomos Griffiths eto – y ddau'n sôn am fywyd ceidwad goleudy.

Yna, dychmygwch eich bod chi'n geidwad goleudy ac ysgrifennwch bwt o ddyddiadur neu stori am y profiad. Efallai eich bod yn dyst i drasiedi ofnadwy neu ddamwain ar y môr neu eich bod chi'n llwyddo i achub rhywun neu rywbeth sy'n mynd i drafferthion.

- Dewiswch leoliad addas ar gyfer eich goleudy a chwiliwch am ddisgrifiadau o'r ardal.
- Cynlluniwch eich stori neu ddyddiadur cyn dechrau ysgrifennu.
- Meddyliwch pa fath o berson yw ceidwad y goleudy.
- Dychmygwch beth mae'r ceidwad yn ei wneud drwy'r dydd.
- Oes gan y ceidwad ddiddordebau heblaw gofalu am y goleudy?
- Oes cwmni ganddo yn y goleudy? Gallai'r cwmni fod yn anifail anwes efallai.
- Cofiwch nad oes angen i neb fyw mewn goleudai drwy'r amser erbyn hyn am eu bod nhw'n cael eu rhedeg yn awtomatig. Felly, bydd angen i chi ddewis ym mha gyfnod mae'r stori wedi'i lleoli.

| Cynllun Stori / Dyddiadur | |
|---|---|
| **Lleoliad:**<br><br>**BLE?** | |
| **Cymeriad:**<br><br>**PWY?** | |
| **Amser:**<br><br>**PRYD?** | |
| **Stori:**<br><br>**BETH SY'N DIGWYDD?** | |